CYFRES C5

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

DARLLENWCH
Ruth 1: 1-14

ADNOD
ALLWEDDOL
Barnwyr 21:25

Gwers 1 Ruth – Penderfyniadau Anghywir

Mae'r gwersi sy'n dilyn yn adrodd hanes teulu oedd yn byw flynyddoedd lawer cyn Dafydd, brenin enwocaf Israel. Mae'r stori'n dechrau ar adeg pan oedd pobl Israel wedi troi cefn ar Dduw ac yn byw bywydau pechadurus a hunanol iawn.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n esbonio sut roedd y bobl yn byw. 2

Mae'n bwysig ein bod ni, yn ystod ein bywydau, yn dewis yr hyn sy'n iawn ac yn dilyn Duw. Yn y Darlleniad hwn o'r Beibl, cawn weld sut y mae rhai yn dewis y ffordd gywir, tra bod eraill yn gwneud y penderfyniad anghywir.

C Ar y map, ysgrifennwch enw'r:-

1) dref yn Israel lle'r oedd y teulu'n byw.

2) y wlad yr aethant i fyw iddi.



Teithiodd y teulu tua 50 milltir. 2

C Isod, ysgrifennwch y rheswm pam y gadawsant eu cartref. 1

Yn aml iawn yn nyddiau'r Beibl, roedd gan enwau pobl a lleoedd ystyr arbennig.

_ _ _ _ _ _ _ _ 1

Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob llun er mwyn canfod ystyr Bethlehem.

Felly, gallwn weld NAD oedd tref Bethlehem yn driw i'w henw!

C **Dyma lun o'r teulu yn dechrau ar eu taith.**
Beth yw enw'r fam a'r tad?

Beth yw enw'r ddau fab?

4

Ddylen nhw ddim fod wedi mynd i Moab, am ei bod yn wlad bechadurus lle'r oedd pobl yn addoli eilunod. Byddai'n well pe baent wedi ymddiried yn Nuw ac aros yn y wlad a roddodd Duw iddynt. Yn y wlad estron honno, digwyddodd trasiedi, ac fe'i dilynwyd gan achlysur trist iawn.

C **Ar y garreg fedd, ysgrifennwch enw'r person a fu farw.**

1

Yn ddiweddarach, profodd Naomi hapusrwydd unwaith eto. Penderfynodd ei dau fab briodi gwraig.

C **Ad-drefnwch y llythrennau i ganfod enwau eu gwragedd.**

POAR **THUR**

2

Ond digwyddodd trasiedi arall!

C **Ar y cerrig bedd, ysgrifennwch enwau'r rhai fu farw nesaf!**

2

Bellach, dim ond tair gwraig weddw sydd ar ôl yn ein stori. Cyn hir, clywodd Naomi newyddion da o'i thref enedigol, Bethlehem..

C **YN EICH GEIRIAU EICH HUN, ysgrifennwch beth glywodd hi.**

1

Dechreuodd y tair ar eu ffordd i wlad Jwda. Ar ôl bod ar y daith am ychydig, arhosodd y tair a diolchodd Naomi i Ruth ac Orpa am eu caredigrwydd tuag ati ac erfyniodd arnynt i fynd yn eu hôl. Ar y dechrau, roedd y ddwy ferch yn benderfynol i barhau ar y daith gyda Naomi, ond dechreuodd honno erfyn yn fwy taer fyth arnynt i'w gadael. Dechreuodd y tair grïo gyda'i gilydd. Ym mhen hir a hwyr, aeth un adref ac arhosodd y llall gyda'i mam-yng-nghyfraith.

C **Ar y llinellau isod, dan enwau'r lleoedd, ysgrifennwch pwy aeth i ble.**



2

Gwelwn felly fod hon yn stori am y dewisiadau a wnaethpwyd gan bobl. Dewisodd Elimelech fynd i Moab; dewisodd Mahlon a Chilion wragedd, a dewisodd Naomi ddychwelyd adref. Penderfynodd Ruth ac Orpa hefyd beth roeddent am ei wneud. Byddwn ninnau hefyd yn gorfod gwneud nifer o benderfyniadau wrth i'n bywyd fynd yn ei flaen. Y dewis pwysicaf ohonynt i gyd yw beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'r Arglwydd Iesu.

C **Darllenwch Ioan 1:12 ac ysgrifennwch beth mae Duw yn addo'i roi i'r sawl sy'n dewis derbyn yr Arglwydd Iesu.**

2

Enw _____

DARLLENWCH
Ruth 1: 14-22, 2: 1-3

ADNOD
ALLWEDDOL
Ruth 1: 16 a 17

Gwers 2 Ruth – Y Gweddwon yn Dychwelyd

Roedd Orpa wedi dod i benderfyniad a dychwelodd i Moab. Roedd Ruth yn benderfynol y byddai'n mynd gyda Naomi i Fethlehem. Mae geiriau Ruth yn yr Adnodau Allweddol yn dangos gymaint oedd ei chariad tuag at ei mam-yng-nghyfraith a pha mor ffyddlon oedd hi iddi.

C Llanwch y geiriau sydd ar goll yn y swigen siarad.

. . . I ble bynnag yr ei di,
_____;
ac ym mhle bynnag y byddi di'n aros,
fe arhosaf finnau; dy bobl di fydd
_____; a'th Dduw di
_____. Lle y byddi di farw,
_____ .
Fel hyn y gwnelo'r Arglwydd i mi, a rhagor, os bydd unrhyw beth
_____ .

5

Ceisiodd Naomi dair gwaith i annog Ruth i ddychwelyd at ei theulu, ei mamwlad a'i duwiau, ond dewisodd Ruth ymddiried yn y gwir Dduw ac aros gyda Naomi. Roedd Ruth wedi dewis y ffordd gywir. Pan gyrhaeddodd y ddwy Bethlehem, roedd pawb a gofiai Naomi yn falch o'i gweld unwaith eto.



C Beth ddywedon nhw?

1

Rhaid eu bod wedi gweld newid mawr ynddi, oherwydd roedd hi'n anhapus iawn!
Fel y gwelsom yn barod, mae ystyr arbennig i enwau pobl weithiau, ond nid yw'r ystyron hynny'n addas iawn bob tro!

C Dywedodd Naomi y dylid newid ei henw i beth?

1

C **Rhowch ddau reswm pam roedd hi'n awyddus i'w newid.** 2

1
2

Ydych chi'n gwybod beth yw ystyr eich enw chi?

C **Ad-drefnwch y ddau air yn y frawddeg isod, i ganfod gwir ystyr adnod 20.** 2

Ystyr imoaN __ __ __ __ __ yw 'hyfryd' ond ystyr Mara yw 'wrechw' ___ __ __ __ __'

C **Atebwch Gwir neu Anwir:-** 5

Roedd Bethlehem yng ngwlad Moab. .....

Daeth Orpa a Ruth i fyw ym Methlehem. .....

Teitl am Dduw yw 'Yr Hollalluog'. .....

Roedd y cynhaeaf ŷd newydd ddechrau. .....

Aeth Ruth i weithio yn y caeau. .....



Ym Mhennod 2, daw cymeriad newydd yn rhan o'r stori.

C **Edrychwch ar y Ffeil Ffeithiau a dewiswch yr ateb cywir ar gyfer pob un o'r pedwar pwynt amdano.**



4

Wrth edrych yn ôl dros yr astudiaeth hyd yma, gwelwn fod newid mawr wedi digwydd yn hanes bywyd Ruth! Bellach, doedd hi ddim yn addoli gau dduwiau Moab, ond yn hytrach, roedd hi'n addoli gwir a bywiol Dduw yr Israeliaid. Mae angen newid arnom ninnau hefyd! Ydych chi wedi troi o'ch pechodau at yr Arglwydd Iesu Grist?

Enw _____

DARLLENWCH
Ruth 2: 1-23

Gwers 3 Ruth – Y Perthynas Cyfoethog

Roedd Ruth a Naomi yn weddwon tlawd ond roedd Ruth yn barod i weithio'n galed i gael bwyd i Naomi ac iddi hi ei hun. Aeth i loffa yn y caeau ŷd. Roedd hyn yn golygu ei bod yn casglu'r tywysennau grawn a adawyd gan y medelwyr. (Edrychwch ar Lefiticus 23:22)

ADNOD ALLWEDDOL
Ruth 2: 20

Cwblhewch y CROESAIR hwn i ganfod manylion am ei gwaith.

AR DRAWS
4. Roedd y ffermwr yn dod o'r lle hwn.
5. Dywedodd y gweithwyr,
"_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ yr Arglwydd dithau".
6. Gair arall am gasglu'r grawn oedd yn weddill.

I LAWR
1. Enw am y dynion sy'n casglu'r cynhaeaf.
2 Enw'r weddw aeth i gasglu'r grawn oedd yn weddill.
3 Roedd y grawn yn tyfu yn y _ _ _ _ _ .
4 Perchennog y fferm.



7

Pan ddaeth Boas i edrych sut roedd y gwaith yn mynd yn ei flaen, sylwodd ar Ruth a gofynnodd pwy oedd hi.

C Beth ddywedodd ei fforman wrtho? (Edrychwch ar adnodau 6 a 7)



3

Roedd gwaith Ruth yn waith syml iawn, cyffredin iawn a blinedig iawn, ond bu'n ffyddlon yn y gwaith hwnnw. Mae Duw'n disgwyl i ni wneud ein gorau ym mhopeth, yn union fel y gwnaeth Ruth. Cynheswyd ei chalon gan garedigrwydd Boas tuag ati, a theimlai nad oedd yn ei haeddu gan ei bod yn wraig estron. (Edrychwch ar adnod 10)

Mae agwedd Boas tuag at Ruth yn ddarlun o ras Duw tuag atom ni.

GRAS Duw yw Ei ffafr ryfeddol Ef tuag at rai fel ni sy'n haeddu dim!

Dyna beth rhyfeddol yw bod Duw yn ein caru, er ein bod yn bechaduriaid. Dangosodd Ei gariad tuag atom trwy anfon yr Arglwydd Iesu i farw trosom. Trwyddo Ef bydd Duw o'n plaid am byth!

C Roedd Boas yn berson caredig iawn. YN EICH GEIRIAU EICH HUN, esboniwch pam y bu'n arbennig o garedig wrth Ruth. (Adnod 11)

1

Mae Duw'n gwarchod y rhai sy'n ymddiried Ynddo Ef, yn union fel y bydd iâr yn cysgodi ei chywion dan ei hadenydd. Mae'r cywion yn rhedeg at yr iâr pan fydd perygl gerllaw. Maent yn ymddiried ynddi. Sicrhaodd Boas Ruth y byddai'r Arglwydd yn gofalu amdani yn yr un ffordd.

C **Ysgrifennwch eiriau Boas yn adnod 12.**



1

Bu Boas yn hael iawn wrth Ruth; rhoddodd iddi bopeth oedd ei angen arni.

C **Defnyddiwch y lluniau hyn a rhif yr adnodau i'ch helpu i lanw'r geiriau sydd ar goll.**

Adnod 9 **Adnod 14** **Adnod 14** **Adnod 16**



Rhoddodd ganiatâd iddi yfed o'r ....., ac yn ystod amser cinio gwahoddodd hi i fwyta..... . Pan oedd yn eistedd wrth ochr y medelwyr, estynnodd Boas ..... wedi ei grasu iddi. Yn olaf, dywedodd wrth ei ddynion am adael rhywfaint o ..... ar ôl, yn fwriadol, er mwyn iddi ei loffa.

4

Aeth Ruth â digon o fwyd adref i Naomi. Sylweddolodd honno fod yr Arglwydd yn gofalu amdanynt.

C **Edrychwch ar yr Adnod Allweddol ac ysgrifennwch beth oedd gan Naomi i'w ddweud am garedigrwydd yr Arglwydd tuag atynt.**

1

C **Ysgrifennwch beth ddywedodd hi am Boas.**

1

Nid damwain a hap oedd hi fod Ruth wedi mynd i loffa yng nghae Boas a bod Boas yn perthyn yn agos iddi. Mae'r Arglwydd yn cyfeirio ein bywydau, hyd yn oed pan fyddwn yn cael amser anodd. Roedd Duw wedi bod yn cynllunio ar gyfer Ruth a Naomi, ac yn trefnu eu bywydau er y gorau. Wrth i'r bennod hon ddod i ben, mae Ruth yn dal yn ffyddlon i Naomi.

C **Edrychwch ar adnod 23 ac ysgrifennwch y ddau beth a wnaeth Ruth.**

2

1

2

Enw _____

DARLLENWCH
Ruth 3: 1-18, 4: 1-17

ADNOD ALLWEDDOL
Salm 37: 5

Gwers 4 Ruth – Ewyllys Duw

Mae diweddglo hapus i stori Ruth. Daeth o hyd i ŵr newydd! Chwaraeodd Naomi ran bwysig drwy drefnu'r briodas.



C Darllenwch Bennod 3: 1-18 a rhowch ✓ neu ✗ ar ôl y brawddegau canlynol i ddangos a ydynt yn Gywir neu'n Anghywir.

Dywedodd Naomi wrth Ruth am orwedd wrth draed Boas. ☐

Gwnaeth Ruth yn union fel y dywedodd Naomi. ☐

Aeth Ruth at Boas yn ei babell. ☐

Cysgodd Boas drwy'r nos. ☐

Atgoffodd Ruth Boas ei fod yn berthynas agos (neu'n gâr). ☐

Roedd Boas yn flin oherwydd yr hyn a wnaeth Ruth. ☐

Addawodd Boas helpu Ruth. ☐

Rhoddodd Boas lond llaw o farlys i Ruth. ☐

8

Yna, bu'n rhaid i Naomi a Ruth aros i weld beth fyddai'n digwydd wedyn.
Drwy ddarllen Pennod 4: 1-11 a chwblhau'r Croesair, byddwch yn darganfod sut y cafodd ewyllys Duw ei rhoi ar waith ym mywyd Ruth.

CROESAIR

I LAWR
1.Enw'r dynion a welodd yr hyn wnaeth Boas. (adnod 10)
2.Nifer yr henuriaid neu arweinwyr. (adnod 2)
4 Roedd hon yn wraig weddw o Moab.(adnod 5)
5.Tynnwyd hon i gadarnhau'r cytundeb. _ _ _ _ _

AR DRAWS
1. Darn _ _ _ (adnod 3)
3. _ _ _ _ _ _ Boas oedd Ruth.
5. Gwnaeth pawb hyn. (adnod 2) _ _ _ _ _ __
6. Trefnwyd popeth wrth y _ _ _ __



8

Roedd Naomi yn hapus oherwydd priodwyd Boas a Ruth. Bendithiodd yr Arglwydd y ddau drwy roi iddynt fab a ddaeth, ym mhen amser, yn dad-cu neu'n daid i rywun arbennig iawn yn hanes Israel.

C **Llanwch yr enwau sydd ar goll yn y goeden deulu.**

(Edrychwch ar adnod 17)



3

Roedd gan Dduw, felly, gynllun rhyfeddol ar gyfer bywyd Ruth. Oherwydd iddi hi ymddiried yn Nuw ac ufuddhau i'w ewyllys Ef, bendithiodd yr Arglwydd hi mewn nifer o ffyrdd.

C **Mae stori Ruth yn darlunio geiriau'r Adnod Allweddol. Ysgrifennwch y geiriau hynny.**

1

Dros 1000 o flynyddoedd yn ddiweddarach, ganwyd yr Arglwydd Iesu yn yr union dref honno – Bethlehem. Roedd Ef yn un o ddisgynyddion Ruth (Mathew 1: 5).
Dyna i chi ryfeddol fod Duw wedi dewis merch estron, oedd yn addoli eilunod ar un adeg, i chwarae rhan mor bwysig yn Ei gynllun i achub dynion a merched a phlant! Drwy'r cynllun arbennig hwn, gall pob un ohonom ninnau hefyd ddod i adnabod Duw, a thrwy hynny fwynhau Ei fendithion am byth.

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH % 01766 819120